# PWYLLGOR MONITRO RHAGLENNI CYMRU AR GYFER CRONFEYDD STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROPEAIDD 2014-2020

***Cofnodion drafft y cyfarfod eithriadol a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2016***

## Croeso ac ymddiheuriadau

1. Cadeiriwyd y cyfarfod gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, Mark Drakeford AC, a groesawodd yr aelodau i gyfarfod eithriadol Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru (PMC).

2. Mae rhestr o'r aelodau a oedd yn bresennol a'r ymddiheuriadau ar gael yn **Atodiad A**.

3. Dywedwyd wrth yr aelodau bod y cyfarfod eithriadol hwn o'r PMC wedi'i drefnu yn dilyn canlyniad refferendwm yr UE, a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2016, i roi gwybod i Aelodau (a thrwyddynt, i'r gymuned randdeiliaid ehangach) am sefyllfa Llywodraeth Cymru o ran Cyllid yr UE yn dilyn y refferendwm ac i roi'r cyfle i'r aelodau drafod eu barn. Yn sgil canlyniad y Refferendwm, cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai Llywodraeth Cymru yn dechrau ar gyfnod o drafodaethau dwys â Llywodraeth y DU a'r Comisiwn Ewropeaidd (CE). Dywedodd hefyd ei bod yn bwysig cydnabod ac ystyried arbenigedd a barn buddiolwyr cyllid Ewropeaidd yn y trafodaethau hynny.

## Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, Mark Drakeford AC

4. Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau y bu Llywodraeth Cymru yn bendant o blaid Cymru'n parhau'n rhan o'r UE. Er nad yw'r sefyllfa hon wedi newid, mae gwaith bellach wedi'i wneud i liniaru effeithiau canlyniad y refferendwm. Yna, rhoddodd wybodaeth i'r PMC am y sefyllfa bresennol yn dilyn y refferendwm, gan nodi'r canlynol:

    - Mae gan y penderfyniad i'r DU adael yr UE y potensial i fod yn ergyd fawr i Gymru gan ei bod ar hyn o bryd yn elwa ar tua £600m bob blwyddyn o gronfeydd yr UE. Roedd yr ymgyrch i adael wedi addo y byddai cyllid cyfwerth â chyllid cronfeydd yr UE yn parhau i ddod i Gymru pe byddai 'Brexit' yn digwydd. Mae Prif Weinidog Cymru wedi ysgrifennu at Brif Weinidog y DU yn gofyn am sicrwydd ynghylch hyn ac i arian gael ei roi yn lle pob ceiniog o arian cronfeydd yr UE fel nad yw Cymru ar ei cholled. Nid oes ymateb ffurfiol wedi'i dderbyn i'r llythyr hwnnw eto. Codwyd yr un cwestiwn yn Senedd y DU, lle dywedodd Prif Weinidog y DU mai mater i'w olynydd fyddai hyn, ac y bydd yn dibynnu ar iechyd economi'r DU yn y dyfodol.

- Fodd bynnag, mae Prif Weinidog y DU wedi ymrwymo y bydd y Gweinyddiaethau Datganoledig yn chwarae rhan lawn yn y trafodaethau ynghylch gadael y dyfodol, fel bod buddiannau pob rhan o'r DU yn cael eu hamddiffyn a'u mynegi. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r ymrwymiad hwn gael ei arddel ac mae o'r farn y dylai unrhyw delerau gadael gael eu cadarnhau gan bedwar corff deddfwriaethol y DU.

- Er nad oes cytundeb yn y DU eto dros bryd i ddechrau gweithredu Erthygl 50, mae'n glir y bydd trafod y trefniadau i adael yn broses gymhleth. Bydd yn hanfodol i Lywodraeth y DU egluro natur ac amseru'r trafodaethau hynny cyn gynted â phosibl er mwyn ail-sefydlogi'r marchnadoedd, busnesau a buddsoddwyr.

- Mae Llywodraeth Cymru yn benderfynol o barhau i ymgysylltu'n rhyngwladol, bod yn eang ei gorwelion a bod o blaid busnes.

- Mewn perthynas â chronfeydd yr UE, mae Prif Weinidog Cymru wedi galw ar Lywodraeth y DU i sicrhau y bydd yr ymrwymiad y bydd y cyllid yn parhau hyd at 2020 yn cael ei arddel – trwy'r UE neu drwy gyllid yn ei le gan y Trysorlys. Mae'r Aelodau wedi cael copi o ddatganiad Prif Weinidog Cymru a gyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru. Ein dealltwriaeth bresennol yw y bydd y DU yn parhau i dalu i mewn i gyllideb yr UE tan iddi ddod â'i pherthynas â'r UE i ben yn ffurfiol. Rydym felly yn gweithio ar y sail y bydd Cymru yn parhau i dynnu i lawr gyllid yr UE tan yr adeg honno – yn bendant tan 2018, ond o bosibl y tu hwnt i hynny gan ddibynnu ar y trafodaethau.

5. Gwnaeth y Cadeirydd hefyd gydnabod bod gan Gymru enw da gyda'r CE a nododd y cynnydd hyd yn hyn o ran buddsoddi cronfeydd 2014-2020:

   - Mae 46% (£830m) o gyfanswm dyraniad y Cronfeydd Strwythurol wedi'i ymrwymo hyd yn hyn. Mae hyn yn cynnwys £4m ar gyfer Prosiect CEMET a oedd yn cael ei gyhoeddi y diwrnod hwnnw (8 Gorffennaf).
   - Trwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig, mae £277m o fuddsoddiad wedi'i ddarparu. Mae'r mwyafrif wedi bod o fudd i ffermwyr a choedwigwyr, gan gynnwys gwerth £140m o grantiau.
   - Mae sefydliadau o Gymru hefyd wedi elwa ar £33m o gronfa Horizon 2020 sy'n cael ei reoli'n uniongyrchol.

6. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i barhau i gymeradwyo gweithrediadau sy'n cael cyllid yr UE, tynnu i lawr gyllid a sicrhau'r mynediad gorau posibl i'r cyllid sydd ar gael. Hyn i gyd wrth fod yn ddoeth

ynghylch lefelau ymrwymiad hirdymor tan i'r sefyllfa o ran amgylchiadau cyllido'r dyfodol ddod yn fwy eglur.

**Cronfeydd Strwythurol**

7. Rhoddwyd gwybod i'r PMC gan Damien O'Brien am sefyllfa bresennol Rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru. Mae'r Rhaglenni ar y blaen o ran lefelau ymrwymo, gyda digonedd o fuddsoddiadau pellach ar y cam datblygu manwl:

   - mae cyfanswm o £831m o gyllid yr UE (46% o gyfanswm y dyraniad) wedi'i ymrwymo i 104 o weithrediadau gwahanol
   - mae 74 o weithrediadau pellach sy'n ceisio £377m ar y cam datblygu manwl, sydd gyda'i gilydd yn cynrychioli £1.2bn o gyllid yr UE (68% o gyfanswm y dyraniad)
   - nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys rhai buddsoddiadau cyfalaf arfaethedig mawr nad ydynt eto wedi'u datblygu ddigon manwl, megis y Metro a'r gwelliannau i'r A55 (sydd o bosibl yn cynrychioli dros £130m o gyllid yr UE)
   - o ganlyniad i'r ffocws cychwynnol ar gymeradwyo gweithrediadau asgwrn cefn, mae cynlluniau allweddol megis cymorth busnes drwy Busnes Cymru, cymorth ariannol drwy Cyllid Cymru a chymorth i unigolion drwy amrywiaeth o raglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) megis Prentisiaethau a ReACT eisoes ar waith.

8. Cadarnhaodd Damien O'Brien fod WEFO yn parhau i ymrwymo i gyflawni rhaglenni'r Gronfa Strwythurol, yn unol â'r amcanion y cytunwyd arnynt gyda'r Comisiwn, er mwyn sicrhau'r cyllid uchaf posibl i Gymru. Er hyn, mae gallu Cymru i weithredu'r rhaglenni hyn yn gwbl ddibynnol ar yr amserlen a fydd yn cael ei chytuno arni o ran y DU yn gadael yr UE.

9. Mae rhaglenni presennol y Gronfa Strwythurol i fod i ddod i ben yn 2020, gyda'r taliadau yn parhau o dan y rheol N+3 tan 2023. Pe byddai proses drafod y DU ar adael yr UE yn para am gyfnod hir, mae'n bosibl y gall Rhaglenni Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) ac ESF barhau tan 2023 gyda chyllid y CE yn parhau am gyfnod di-dor. Fodd bynnag, yr un yw'r posibilrwydd y gall cyllid yr UE ddirwyn i ben yn gynharach, a chydnabyddir mai 2018 o bosibl yw'r dyddiad cynharaf y gall y DU adael yr UE.

10. Er hyn, yn unol â galwad Prif Weinidog Cymru y dylai Llywodraeth y DU sicrhau bod y cyllid yn parhau hyd at 2020, mae WEFO yn cynllunio tuag at y dyddiad hwnnw (2020). Yn y cyd-destun hwn, ac nes bydd y sefyllfa ynghylch parhad/argaeledd cyllid ddod yn glir (gan gynnwys a yw Llywodraeth y DU yn

barod i wneud iawn am unrhyw ddiffyg o ganlyniad i adael yn gynnar), mae WEFO – trwy ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar risg – yn parhau i gymeradwyo prosiectau, gan asesu'n ofalus a fydd modd cyflawni'r gweithrediadau arfaethedig o fewn y cyfnod cynllunio hyd at 2020.

11. Pe byddai'r trafodaethau yn arwain at amserlen adael sy'n golygu ei bod yn amhosibl cyflawni yn erbyn canlyniadau'r Rhaglen a'r amserlenni y cytunwyd arnynt, gall fod angen ceisio ail-drafod y rhaglenni â'r Comisiwn.

12. Dywedwyd wrth yr Aelodau am bwysigrwydd nodi y bydd y rheolau presennol sy’n pennu sut y caiff Cronfeydd Strwythurol yr UE eu defnyddio yn parhau mewn grym tan i'r DU adael yr UE yn y pen draw. Dywedwyd hefyd wrth yr aelodau ei bod yn rhesymol tybio y gallai rhaglenni’r UE yng Nghymru fod yn destun craffu manylach mewn archwiliadau yn y cyfnod cyn gadael.

13. Pwysleisiodd Damien O'Brien y pwysigrwydd bod y broses weithredu yn mynd rhagddi yn ddi-oed ac i bartneriaid Cymru ganolbwyntio ar gyflawni gweithrediadau cymeradwy a chyflawni'r canlyniadau disgwyliedig yn unol â'r proffiliau cyflawni a gwario y cytunwyd arnynt.

14. Cadarnhaodd Damien O'Brien y bydd WEFO yn parhau i fod mewn cysylltiad â'r PMC ac â phartneriaid ehangach wrth i ddatblygiadau pellach godi.

**Rhaglen Datblygu Gwledig**

15. Ategodd Terri Thomas sylwadau Damien O'Brien a rhoddodd ddiweddariad ar sefyllfa bresennol y Rhaglen Datblygu Gwledig:

    - Mae cyfanswm y prosiectau/cytundebau a gymeradwywyd tua £277m (21% o'r rhaglen)
    - Mae cyfnodau Datgan Diddordeb pellach yn parhau
    - Ar hyn o bryd, mae'r ymrwymiadau (hy cyfnodau cymeradwyo a datgan diddordeb) gyda'i gilydd werth tua £436m o gyfanswm y Rhaglen Datblygu Gwledig (46% o'r rhaglen), ac o'r arian hwnnw, mae £300m yn gyllid gan yr UE.

16. Mae sawl gwahaniaeth nodedig rhwng rhaglenni'r Rhaglen Datblygu Gwledig a'r Cronfeydd Strwythurol sef eu bod yn cynnwys nifer o brosiectau llai ac felly bydd y ffocws ar sut y gall y prosiectau hyn wario yr arian erbyn 2018. Mae rhagor o waith ar y gweill i weld yr hyn y mae modd ei wneud o ran ymrwymiadau y tu hwnt i'r amserlen hon. Gallai'r Rhaglen gyflymu'r broses o dynnu i lawr y cyllid o'r CE trwy ddiwygio'r gyfradd gydgyllido sy'n fater y byddai angen ei drafod a'i gytuno â'r CE dros y misoedd nesaf drwy addasu'r rhaglen.

17. Dywedodd Terri Thomas wrth yr aelodau hefyd y gwnaeth Prif Weinidog Cymru ac Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Lesley Griffiths, gyfarfod â phobl allweddol o sectorau amgylcheddol ac amaethyddol Cymru ar 4 Gorffennaf i drafod goblygiadau'r refferendwm.

**Trafodaeth y PMC**

18. Diolchodd yr Aelodau i'r Cadeirydd am ei ddatganiad a chroesawyd safbwynt Llywodraeth Cymru na ddylai Cymru fod ar ei cholled wrth i'r DU adael yr UE. Yn ogystal â hyn, cyflwynodd yr Aelodau y sylwadau canlynol:

- Roedd buddiolwyr ledled Cymru yn gobeithio y byddai'r rhaglenni’n parhau hyd at 2020 ac y byddai Llywodraeth y DU yn rhoi arian yn lle unrhyw ddiffyg yn y cyllid.
- Ystyriwyd bod cadw 2020 fel dyddiad cynllunio WEFO a rheoli buddsoddiadau unigol yn seiliedig ar risg yn ffordd synhwyrol a phwyllog o fynd ati, o ystyried yr ansicrwydd.
- Mae cysylltiadau unigol gyda'r CE a chydweithwyr ym Mrwsel yn parhau'n gadarnhaol, ond roedd yn anffodus nad oedd Swyddogion y CE yn bresennol yn y cyfarfod hwn.
- Cydnabuwyd bod y bleidlais i adael yr UE wedi arwain at ddyfodol ansicr i Gymru, heb strategaeth glir na chynllun amlwg i arwain perthynas y DU â'r UE yn y dyfodol. Felly, roedd aelodau’r PMC yn deall pa mor anodd ydyw i bennu'r effeithiau ar Gymru a chynllunio i'r dyfodol.
- Mae nifer o weithrediadau eisoes yn wynebu oedi oherwydd trefniadau cyflawni cymhleth. Yn y cyd-destun hwn, mae'r angen am eglurder yn gynnar yn y broses ac i'r trafodaethau i adael gael eu gwneud yn gyflym yn bwysig.
- Byddai'n ddefnyddiol cael eglurder yn gynnar yn y broses ynghylch sut y bydd y penderfyniad i adael yn effeithio ar brosiectau trawsnewid mawr, megis Metro De-ddwyrain Cymru.
- Mae cryn ansicrwydd yn y gymuned fusnes, felly mae angen rhoi sicrwydd bod WEFO yn parhau i weithredu.
- Mae'n bwysig bod rhanddeiliaid yn chwarae rhan briodol yn y gwaith o ddatblygu'r ymateb i 'Brexit' – gan gyfeirio'n benodol at rôl Undebau Llafur a Llywodraeth Leol.
- O ystyried yr ansicrwydd ynghylch cyllid y dyfodol, dylai fod ffocws mwy fyth ar fuddsoddi mewn swyddi cynaliadwy.
- Mae gan Gymru gyfoeth o syniadau am brosiectau diddorol y dylid parhau i fynd ar eu trywydd, hyd yn oed os na fyddant yn cael eu hariannu gan yr UE.
- Mae pryderon ynghylch ariannu prosiectau 'LEADER' gan nad ydynt wedi mynd rhagddynt fel y rhagwelwyd.

- Gall fod angen dull arloesol o adolygu prosiectau a chanfod ffynonellau cyllid eraill os yw Cymru am wireddu manteision y cyfleoedd hynny.
- Wrth adolygu rhaglenni, dylid archwilio'r potensial i gyflawni mwy o fudd o ddatblygu offerynnau ariannol.
- Dylai cysylltedd ac argaeledd band eang barhau'n flaenoriaeth i'r economi wledig ehangach.
- Wrth adolygu portffolios, mae'n bwysig bod pob rhan o Gymru: ardaloedd cefn gwlad a threfol, yn parhau i fanteisio ar y gweithrediadau y cytunwyd arnynt.
- Mae'n bwysig bod effaith a manteision cadarnhaol cyllid yr UE yng Nghymru yn parhau i gael eu cyfleu.
- Mae sefydliadau yng Nghymru sy'n cael cyllid yr UE, a'u gweithwyr, yn bryderus ynghylch sicrwydd swyddi. Byddai'n ddefnyddiol pe byddai modd cylchredeg nodyn o'r cyfarfod i atgyfnerthu'r negeseuon a ddarparwyd yn y PMC heddiw.

**CAM GWEITHREDU: Ysgrifenyddiaeth y PMC i gylchredeg cofnodion y cyfarfod i aelodau'r PMC.**

19. Mewn ymateb i'r cwestiynau gan yr Aelodau ynghylch y materion a godwyd yn y cyfarfod, dywedodd y Cadeirydd a'r Awdurdodau Rheoli y canlynol:

- Roedd yn siomedig na allai cynghorwyr y CE fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan fod eu cyfraniadau'n ddefnyddiol i'r trafodaethau. Fodd bynnag, mae Cymru yn awyddus i weithio gyda'r CE ac mae'n obeithiol y bydd ein trafodaethau buddiol a chynhyrchiol blaenorol yn parhau.
- Cytunodd y Cadeirydd i roi gwybod i Brif Weinidog Cymru am fuddiant rhanddeiliaid mewn 'fforwm omnibws' er mwyn cymryd rhan yn y broses adael.
- Cydnabuwyd yr angen i gael eglurhad mor gynnar â phosibl ynghylch y ffordd ymlaen. Mae Prif Weinidog Cymru wedi pwyso am hyn wrth alw am sefydlu amserlen glir i arwain y broses i adael.
- Bydd goblygiadau'r bleidlais i adael yr UE yn effeithio ar yr holl arian a chyllidebau cyhoeddus yng Nghymru, ac nid ar gyllid yr UE yn unig. Wrth symud ymlaen, bydd angen sicrhau system gyllido hirdymor decach i Gymru. Felly, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru fod yn bwyllog wrth wneud ymrwymiadau y tu hwnt i 2018, a bydd angen i gytundebau cyllido'r dyfodol adlewyrchu unrhyw ansicrwydd amlwg.
- Bydd WEFO yn parhau i wneud popeth o fewn ei gallu i sicrhau'r manteision mwyaf posibl o gyllid yr UE hyd nes na fydd ar gael i Gymru ragor. Bydd WEFO hefyd yn archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu ffynonellau ac offerynnau ariannol eraill. Mae offerynnau ariannol yn

ystyriaeth bwysig yn y cyd-destun hwn, gyda Chymru eisoes yn elwa ar gynlluniau presennol.

- Mae'r Metro yn gynllun trawsnewidiol i Gymru ac er gwaetha canlyniad y refferendwm, mae'r gwaith o ddatblygu'r prosiect a'r trafodaethau cyllido yn parhau, gan gynnwys gyda JASPERS a Banc Buddsoddi Ewrop. Os bydd diffyg o ran cyllid yr UE ar gyfer y cynllun hwn, bydd angen ceisio sicrwydd ynghylch cyllid yn ei le gan Lywodraeth y DU.
- Mae LEADER a phrosiectau gwledig eraill megis Glastir yn bwysig i Gymru, ond hyd nes bod modd ceisio sicrwydd ac eglurder cyfreithiol o ran argaeledd y cyllid, bydd ansicrwydd yn parhau ac ni all Llywodraeth Cymru wneud unrhyw ymrwymiadau y tu hwnt i 2018.
- Mae canlyniad y refferendwm yn effeithio ar rôl y PMC a'i gynllun o ran gwaith y dyfodol. Bydd y PMC yn cael gwybodaeth am y cynnydd a bydd ganddo'r cyfle i lywio strategaethau gweithredu wrth symud ymlaen. Mae Prif Weinidog Cymru yn ystyried penodi Cadeirydd newydd i'r PMC yn dilyn penodiad Mick Antoniw i rôl newydd yn dilyn etholiad diweddar Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

20. Diolchodd y Cadeirydd i’r Aelodau am fod yn bresennol ac am eu cyfraniadau i'r cyfarfod a dywedodd y byddai'r swyddogion ar gael ar ôl y cyfarfod i drafod ymhellach.

21. Bydd cyfarfod nesaf y PMC yn cael ei gynnal ar 9 Medi 2016.

**Ysgrifenyddiaeth y PMC**
**Gorffennaf 2016**

Atodiad A

**Cyfarfod Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd 2014 -2020 PMC Cymru a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2016**
**Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Merthyr Tudful**

**Cadeirydd –** Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, Mark Drakeford AC

***Aelodau a enwebwyd i gynrychioli partneriaid a chyrff statudol:***

| | |
|---|---|
| Tom Whyatt | Busnes a Menter (Diwydiant Cymru) |
| Dr Greg Walker | Addysg Bellach (Colegau Cymru) |
| Rudi Plaut | Busnes a Menter (Commerce Cymru) |
| Martin Mansfield | *Eilydd Julie Cook* Undebau Llafur (TUC Cymru) |
| Rhian Jardine | Cynaliadwyedd amgylcheddol (Cyfoeth Naturiol Cymru) |
| Lowri Owain | LEADER |
| Cath Jenkins | Llywodraeth Cymru (Addysg a Sgiliau) |
| Matthew Quinn | Llywodraeth Cymru (Cyfoeth Naturiol) |
| Alun Davies | *Eilydd Charlotte Priddy* Undeb Amaethwyr Cymru (FUW) |
| Rachel Lewis Davies | Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU) |
| Arfon Williams | Cyrff anllywodraethol amgylcheddol (Cyswllt Amgylchedd Cymru/RSPB) |
| Tim Peppin | *Eilydd Lowri Gwilym* Llywodraeth Leol (CLlLC) |
| Phil Fiander | Y Trydydd Sector (CGGC) |
| Karen Anthony | Yr Economi Wledig (Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad) |
| David Blaney | Addysg Uwch (CCAUC) |
| Peter Crews | Undebau Llafur (TUC Cymru) |
| Derek Walker | Y Trydydd Sector (Canolfan Cydweithredol Cymru) |

***Aelodau a ddewiswyd drwy'r broses penodiadau cyhoeddus:***

| |
|---|
| Dr Grahame Guilford |
| Sian Price |
| Beth Winkley |
| Hayley Dunne (*eilydd Joy Kent)* |
| David (Dai) Davies |
| Yr Athro Richard B. Davies |

***Awdurdodau Rheoli Rhaglenni:***
***Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru/Yr Adran Cyfoeth Naturiol***

| | |
|---|---|
| Damien O'Brien | Prif Weithredwr, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) (ERDF, ESF) |
| Terri Thomas | Pennaeth yr Is-adran Datblygu Gwledig, yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol (y Rhaglen Datblygu Gwledig) |
| Peter Ryland | Dirprwy Gyfarwyddwr, Perfformiad a Chyllid Rhaglenni (ERDF, |

| | |
|---|---|
| | ESF) |
| Rob Halford | Pennaeth Cynllunio a Strategaeth (ERDF, ESF) |
| Sue Price | Pennaeth Rhaglenni ERDF |
| Jane McMillan | Pennaeth Rhaglenni ESF |
| Angela Griffin | Ysgrifenyddiaeth |
| Lois Wilson | Ysgrifenyddiaeth |

***Ymddiheuriadau***

| | |
|---|---|
| Joy Kent | Penodiad Cyhoeddus |
| David (Dai) Davies | Penodiad Cyhoeddus |
| Jocelyn Llewhellin | Llywodraeth y DU (Y Ganolfan Byd Gwaith) |
| Paul Byard | Busnes a Menter (Commerce Cymru) |
| Rhian Jardine | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Charlotte Priddy | FUW |
| Andrew Slade | Cyfarwyddwr, Amaeth, Bwyd a'r Môr (y Rhaglen Datblygu Gwledig) |
| Y Cyng. Ronnie Hughes | CLlLC |
| Lowri Gwilym | CLlLC |
| Duncan Hamer | Llywodraeth Cymru (Yr Economi) |
| Kristina Kusmanova | Y Comisiwn Ewropeaidd, Swyddog Desg y DU sy'n gyfrifol am Raglenni 2014-2020, DG Regio |
| Joanna Grochowska | Y Comisiwn Ewropeaidd, Swyddog Desg Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, DG Employ. |
| Marek Beran | Y Comisiwn Ewropeaidd,<br>DG Agriculture and Rural Development |
| David Hughes | Y Comisiwn Ewropeaidd, DG COMM, Swyddfa yng Nghymru |